**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Ionawr 2026

Annwyl Mike

**Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) a gyhoeddwyd ar 23 Rhagfyr 2025. Gweler fy ymateb i gyfres o argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 1.

Rwy'n darparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 y Pwyllgor cyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol, sydd hefyd yn cyd-fynd ag argymhelliad 1 y Pwyllgor, a oedd yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru ymateb o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar y Bil a'i ddogfennau ategol. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy broses y Senedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

| Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Dylai’r Cwnsler Cyffredinol ymateb i’r casgliadau a’r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o fewn dau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1. | **Nodwyd**<br><br>Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, rwy'n darparu'r ymateb ysgrifenedig hwn ddau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol. |
| **Argymhelliad 2.** Yn amodol ar argymhelliad 3, dylai’r Cwnsler Cyffredinol ysgrifennu at y Pwyllgor yn wythnos gyntaf mis Chwefror 2026 i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ynghylch y cydsyniad sy’n ofynnol ar gyfer adran 4 o’r Bil. | **Nodwyd**<br><br>Rwy'n hapus i ysgrifennu at y Pwyllgor yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses i gael y cydsyniad angenrheidiol gan Weinidog y Goron. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod gan yr argymhelliad i ddileu adran 4 o'r Bil - y gofynion hysbysu ar Lysoedd Cymru a Lloegr - oblygiadau i'r gofyniad i gael cydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth honno. |
| **Argymhelliad 3.** Dylai’r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliant i ddileu adran 4 o’r Bil. | **Nodwyd**<br><br>Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod system hysbysu ar gyfer y Llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn briodol mewn perthynas â digwyddiad sbardun adalw A, rwy'n cydnabod bod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod cysondeb rhwng goblygiadau euogfarn droseddol yn Llysoedd Cymru a Lloegr, a Llysoedd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy pwysig na chreu gofynion hysbysu ar lysoedd pan fo hynny o fewn cymhwysedd y Senedd. Felly, byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn. |
| **Argymhelliad 4.** Dylid cyflwyno gwelliant i adran 5(1) o’r Bil i osod dyletswydd ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gynhyrchu canllawiau adalw o fewn amserlen benodedig. | **Derbyn**<br><br>Gan nodi bod Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau wedi clywed tystiolaeth ynglŷn â'r mater hwn ac o ystyried bod y Pwyllgor hwn a Phwyllgor y Bil wedi dod i'r casgliad bod angen rhyw syniad o amserlen ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i lunio'r canllawiau, byddaf yn paratoi gwelliant i osod gofyniad ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i osod canllawiau adalw gerbron y Senedd. Bydd yr Aelodau yn nodi bod hyn ychydig yn wahanol i'r argymhelliad y dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad fod o dan rwymedigaeth i ddyroddi canllawiau adalw. Mae hyn oherwydd bod angen cymeradwyaeth y Senedd i ddyroddi canllawiau, ac felly nid yw dyletswydd i ddyroddi canllawiau yn un y gellir ei harfer yn gyfan gwbl o fewn pwerau'r |

| | |
|---|---|
| | Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Felly, ystyrir bod dyletswydd i osod canllawiau drafft yn fwy priodol, gan ei bod yn cyflawni ysbryd yr argymhelliad drwy sicrhau bod y canllawiau drafft yn cael eu cyflwyno heb effeithio ar ddisgresiwn y Senedd i gymeradwyo (neu beidio) y canllawiau drafft. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai’r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliant i ddileu adran 5(7)(b) o’r Bil. | **Derbyn**<br><br>Rwy'n hapus i gael fy arwain gan farn y Pwyllgor hwn yn ogystal â'r un farn a fynegwyd gan Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau ynghylch beth ddylai'r trothwy ar gyfer cytuno ar ganllawiau adalw fod. Er bod y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cyd-fynd â'r trothwy o ddwy ran o dair i gymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog, rwy'n cydnabod nad yw'r Cod Ymddygiad a'r weithdrefn safonau ond yn gofyn am fwyafrif syml i'w diwygio. Felly, byddaf yn paratoi gwelliant a fyddai'n gostwng y trothwy ar gyfer cytuno ar y canllawiau i fwyafrif syml yn y Senedd. |
| **Argymhelliad 6.** Dylai’r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliant neu welliannau i’r Bil i fynnu na ellir sbarduno pôl adalw nes bod apeliadau a wneir gan yr Aelod yn erbyn yr euogfarn berthnasol wedi eu penderfynu neu eu gwaredu fel arall. | **Gwrthod**<br><br>Wrth ddatblygu'r darpariaethau mewn perthynas â Digwyddiad Sbardun A, ceisiais daro cydbwysedd rhwng y tensiynau sy'n cystadlu â'i gilydd o gynnal tegwch tuag at yr Aelod dan sylw, a sicrhau bod y system adalw yn ymarferol ac yn effeithiol. Deuthum i'r casgliad y byddai atal prosesau adalw rhag digwydd hyd nes bod llwybrau apelio wedi'u disbyddu yn creu risg wirioneddol o lesteirio'r diben y tu ôl i greu system adalw.<br><br>Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, ar ôl clywed tystiolaeth sylweddol ynglŷn â'r pwynt hwn, wedi dod i'r casgliad mai'r darpariaethau presennol yn y Bil sydd fwyaf priodol. Felly, nid wyf yn bwriadu paratoi gwelliannau ar y sail hon. |
| **Argymhelliad 7.** Dylai’r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliant i’r Bil i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 11(1) o fewn cyfnod penodedig. | **Gwrthod**<br><br>Rwy'n cydnabod pwysigrwydd y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 11 i weithredu'r system adalw. Fodd bynnag, rwy'n ystyried nad yw "caiff" yn adran 11(1) yn ddisgresiwn gwirioneddol oherwydd pe na bai unrhyw reoliadau yn cael eu gwneud, ni all y Ddeddf, os caiff ei phasio, byth gael ei gweithredu, a fyddai'n gyfystyr â llesteirio ewyllys y Senedd. Ar ben hynny, gan fod y rheoliadau'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, gall rhoi Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i "wneud" y rheoliadau |

| | |
|---|---|
| | greu tensiwn rhwng yr angen i Weinidogion gydymffurfio â'r ddyletswydd a disgresiwn y Senedd i gymeradwyo (neu beidio) y rheoliadau drafft a osodir ger ei bron.<br>Fel y nodir yn y ddogfennaeth ategol i'r Bil, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, byddwn yn rhag-weld pe bai'r Bil yn cael ei basio gan y Senedd y byddai'r rheoliadau'n cael eu paratoi, eu hymgynghori arnynt, eu llunio'n derfynol a'u cyflwyno i'r Senedd yn 2026-27. Fodd bynnag, byddai risg sylweddol ynghlwm wrth benderfynu ar yr hyn a fyddai'n amserlen benodedig briodol.<br>Felly, nid wyf yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol diwygio'r pŵer presennol i ddyletswydd neu i gymhwyso amserlen benodedig. |
| **Argymhelliad 8.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro beth fyddai diwygio adran 13 o Ddeddf 2006 drwy adran 22 o'r Bil yn galluogi rheoliadau i'w wneud o dan adran 11(1) na fyddai'n bosibl pe na bai adran 22 yn rhan o'r Bil. | **Derbyn**<br><br>Yn fy ymateb i argymhelliad 2, rwyf wedi ymrwymo i ysgrifennu at y Pwyllgor yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses i gael cydsyniad Gweinidogion Llywodraeth y DU. Fel rhan o'r ohebiaeth honno, byddaf hefyd yn mynd i'r afael ag ymholiad y Pwyllgor a nodir yn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 9.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol nodi a ellid defnyddio'r pŵer sydd yn adran 11(3)(a)(ii) y Bil i gymhwyso'r gwaharddiad ar wneud neu gyhoeddi datganiadau anwir neu gamarweiniol o ffeithiau i bolau adalw, ac ai dyna'r bwriad. | **Derbyn**<br><br>Yn fy ymateb i argymhelliad 2, rwyf wedi ymrwymo i ysgrifennu at y Pwyllgor yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses i gael cydsyniad Gweinidogion Llywodraeth y DU. Fel rhan o'r ohebiaeth honno, byddaf hefyd yn mynd i'r afael ag ymholiad y Pwyllgor a nodir yn yr argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 10.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys ar ei wyneb unrhyw drosedd newydd a fyddai'n berthnasol mewn perthynas â pholau adalw. | **Gwrthod**<br><br>Bydd y broses ar gyfer cynnal pôl adalw - gan gynnwys unrhyw drosedd mewn cysylltiad â phôl o'r fath - yn cael ei nodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 11 o'r Bil. Mae hyn yn gyson â'r dull a gymerwyd o ran rheoleiddio etholiadau cyffredinol i'r Senedd, drwy'r "Gorchymyn Cynnal Etholiadau", a wnaed o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.<br><br>Ar ben hynny, mae sefydlu'n union pa droseddau y bydd angen eu cymhwyso i bôl adalw yn dasg sylweddol, ac mae'n briodol bod adolygiad cynhwysfawr o'r troseddau hynny sy'n gymwys mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd yn cael ei gynnal cyn eu sefydlu drwy reoliadau o dan adran 11. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 11.** Os nad creu troseddau newydd yw'r bwriad, dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliant i adran 11 o'r Bil i gyfyngu'r troseddau y cyfeirir atynt yn adran 11(3)(c) i droseddau sydd eisoes yn bodoli mewn deddfwriaeth. | **Gwrthod**<br><br>Fel y mae'r Pwyllgor yn ei nodi, bwriad y Llywodraeth yw ceisio cymhwyso - cyn belled ag sy'n briodol - y troseddau sy'n dod i rym mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd, i bôl adalw.<br>Mae'r gwaith manwl ar gyfer datblygu'r rheolau a fydd yn rheoleiddio pôl adalw eto i'w wneud. Yng ngoleuni hynny, nid yw'n bosibl dweud yn sicr na fydd unrhyw droseddau pwrpasol sy'n ofynnol mewn cysylltiad â phôl adalw yn unig. Er enghraifft, yn system adalw Senedd y DU, mae cyfundrefn benodol o "ymgyrchwyr achrededig" sy'n gymwys yn unig mewn cysylltiad ag adalw, ac sy'n cynnwys troseddau penodol mewn cysylltiad â'r gyfundrefn honno. Er nad yw penderfyniadau mewn cysylltiad â goruchwylio treuliau mewn pôl adalw wedi'u gwneud eto, mae'n bwysig sicrhau bod gan y Llywodraeth y gallu i wneud rheoliadau a all lywodraethu'n briodol y broses ar gyfer cynnal pôl adalw. |
| **Argymhelliad 12.** Os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn gwrthod argymhellion 10 ac 11, dylai roi esboniad manwl pam ei bod hi o'r farn nad yw'n bosibl rhoi troseddau newydd ar wyneb y Bil mewn perthynas â pholau adalw. | **Derbyn**<br><br>Rwyf wedi nodi fy rhesymeg dros wrthod argymhellion 10 ac 11 yn yr ymatebion uchod. |
| **Argymhelliad 13.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofyniad i ymgynghoriad cyhoeddus ddigwydd cyn gwneud rheoliadau o dan<br>adran 11. | **Gwrthod**<br><br>Mae adran 11 o'r Bil yn cynnwys dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch unrhyw reoliadau sy'n ymwneud â'r rheolau ymddygiad ar gyfer pôl adalw. Mae disgwyliad cyhoeddus cyfreithlon hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r cyhoedd yn ehangach ar reoliadau fel y rhain. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i hyn, fel y dangoswyd yn ddiweddar pan wnaethom ymgynghori ar Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025, cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd yr haf diwethaf. Ar y sail hon, nid wyf o'r farn ei bod yn angenrheidiol diwygio'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad o'r fath. |
| **Argymhelliad 14.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliannau i adran 18 o'r Bil fel ei fod yn gwneud darpariaeth ar gyfer:<br>▪ pwyllgor sy'n gyfrifol am safonau ymddygiad Aelodau'r Senedd;<br>▪ penodi pobl nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd i'r Pwyllgor Safonau | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau wedi clywed tystiolaeth ynglŷn â'r darpariaethau yn adran 18 o'r Bil ac wedi gwneud argymhelliad sy'n nodi y dylai'r Bil fod yn llai rhagnodol ynghylch sut y dylai'r Senedd nodi ei threfniadau ei hun. Bydd fy swyddogion yn ystyried |

| | |
|---|---|
| Ymddygiad (neu is-bwyllgor o’r Pwyllgor hwnnw). | ymhellach y lefel o ragnodi sydd ei hangen ar wyneb y Bil a byddant yn paratoi gwelliannau i gael gwared ar elfennau o benodoldeb lle bo hynny'n briodol. |
| **Argymhelliad 15.** Yn amodol ar argymhelliad 14, dylai’r Cwnsler Cyffredinol sicrhau bod testunau Cymraeg a Saesneg y Bil yn gyfwerth. | **Derbyn**<br><br>Bydd fy swyddogion yn paratoi gwelliannau i gywiro'r derminoleg yn y fersiwn Gymraeg o'r Bil. |
| **Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod y Cwnsler Cyffredinol yn cyflwyno gwelliant i ddileu adran 22 o’r Bil ac yn lle hynny’n gosod y gwaharddiad ar wneud neu gyhoeddi datganiadau anwir neu gamarweiniol o ffeithiau cyn neu yn ystod etholiad Senedd ar wyneb y Bil drwy welliant yng Nghyfnod 2 y trafodion. | **Nodwyd**<br><br>Rwyf wedi bod yn glir drwy gydol Cyfnod 1 bod creu trosedd newydd yn fater newydd a chymhleth ac nad yw'n rhywbeth y dylid ei frysio. Fel y mae'r Pwyllgor yn ei nodi, wrth ddatblygu unrhyw drosedd, mae'n hanfodol bod asesiad llawn o'r effeithiau ar y system gyfiawnder, yr ystyriaethau o ran hawliau dynol, a'r gyfraith etholiadol ehangach yn cael ei gynnal, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cynhwysfawr. Byddaf yn ystyried dichonoldeb a goblygiadau ymgymryd â'r gwaith hwnnw mewn pryd i fewnosod trosedd yn y Bil fel gwelliant yng Nghyfnod 2.<br><br>Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad am ei waith ar y pwnc hwn, ac am ei argymhellion a nodir yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025 ac a nodwyd gan y Senedd ym mis Ebrill 2025. Roedd yn bwysig bod gwaith y llywodraeth yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ogystal â thrafodaethau a chasgliadau'r Pwyllgor hwnnw. Yng ngoleuni etholiad y Senedd yn 2026, cynlluniwyd y ddarpariaeth yn adran 22(3) i sicrhau y byddai'r gwaith i sefydlu'r drosedd yn cael ei barhau gan Lywodraeth nesaf Cymru. |
| **Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell, wrth ddrafftio gwelliant i osod y gwaharddiad ar wyneb y Bil, fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru:<br>• ymgynghori â’r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a rhanddeiliaid perthnasol eraill, a gwneud datganiad yn nodi’r ymatebion a ddaw i law gan y sefydliadau hyn, a chrynhoi canlyniadau unrhyw ymgynghoriad a gynhelir ochr yn ochr â gwelliannau a gyflwynwyd; a hefyd | **Nodwyd**<br><br>Mae'r camau a amlinellir yn yr argymhelliad yn gynhenid synhwyrol a byddant wrth gwrs yn cael eu cymryd gan y Llywodraeth yn ystod y gwaith o ddatblygu unrhyw drosedd. |

| | |
|---|---|
| • cwblhau a chyhoeddi asesiad effaith ar hawliau dynol ac asesiad effaith ar gyfiawnder ar y darpariaethau newydd mewn Memorandwm Esboniadol diwygiedig. | |
| **Argymhelliad 18.** Os na fydd y Cwnsler Cyffredinol yn derbyn argymhellion 16 a 17, mae mwyafrif y Pwyllgor o'r farn y dylid dileu adran 22 o'r Bil. | **Nodwyd**<br><br>Nodaf nad yw'r Pwyllgor wedi gallu dod i gonsensws ynghylch y ffordd briodol o weithredu os nad yw'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bosibl neu'n briodol mewnosod trosedd o'r fath yng Nghyfnod 2. Fel y nodwyd yn fy ymateb i argymhelliad 16, byddaf yn ystyried dichonoldeb a goblygiadau ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i fewnosod trosedd yn y Bil fel gwelliant yng Nghyfnod 2. |